*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1659 (Cy. 157)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cod Derbyniadau Ysgol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - - 3 Gorffennaf 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 85(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Derbyniadau Ysgol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwrnod Penodedig**

**2.** Y diwrnod a bennir fel y diwrnod y daw'r Cod Derbyniadau Ysgol (y gosodwyd copi o ddrafft ohono gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Mai 2013) i rym yw 8 Gorffennaf 2013.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

3 Gorffennaf 2013

(**1**) 1998 p.31 Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 8 Gorffennaf 2013 fel y diwrnod y daw'r Cod Derbyniadau Ysgol ("y Cod") a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 84 a 85 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("DSFfY 1998") i rym. Mae'r Cod yn gymwys o ran Cymru ac mewn cysylltiad â derbyniadau i Flwyddyn Ysgol 2014/2015 a'r blynyddoedd dilynol. Mae'r Cod yn disodli'r Cod Derbyniadau Ysgol a ddaeth i rym ar 15 Gorffennaf 2009.

Mae'r Cod yn gosod gofynion ac yn cynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion neu faterion eraill mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer derbyn i ysgolion. O dan adran 84(3) o DSFfY 1998, dyletswydd awdurdodau addysg lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, fforymau derbyn a phaneli apêl, wrth arfer swyddogaethau o dan Bennod 1 o Ran 3 o DSFfY 1998, yw gweithredu yn unol ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Cod. Yn ogystal, rhaid i unrhyw berson arall, wrth arfer unrhyw swyddogaeth at ddiben cyflawni swyddogaethau gan awdurdod addysg lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan y Bennod honno, weithredu yn unol ag unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Cod.

Mae'r prif newidiadau a gyflwynir yn y Cod hwn yn cynnwys:

(a) gofyniad bod meini prawf gordanysgrifio awdurdodau derbyn yn cynnwys, ochr yn ochr â 'plant sy'n derbyn gofal', 'plant a oedd yn derbyn gofal o'r blaen' fel y maen prawf cyntaf ym mhob achos;

(b) pennu dyddiadau cynnig cyffredin pan fydd **rhaid** anfon llythyrau penderfyniad o fewn pob awdurdod lleol gam wrth gam;

(c) gofyniad bod rhestrau aros yn cael eu cynnal hyd 30 Medi pan fo ysgolion wedi eu gordanysgrifio;

(d) eithriadau ychwanegol i'r ddeddfwriaeth ynghylch maint dosbarthiadau;

(e) mwy o gyfleoedd i amrywio'r trefniadau derbyn presennol heb gyfeirio at Weinidogion Cymru.